# LLYFRYN POLISI CYNLLUN YSWIRIANT CYNNWYS TŶ

<u>NID YW</u> CWMPAS YR YSWIRIANT HWN YN DIOGELU EICH EIDDO RHAG POPETH A ALL DDIGWYDD

DARLLENWCH Y POLISI A HOLWCH YNGHYLCH UNRHYW BETH NAD YDYCH YN EI DDEALL

# YSWIRIANT CYNNWYS TŶ

## CYFLWYNIAD

Hwn yw EICH polisi yswiriant cynnwys tŷ fel un o denantiaid Cyngor Caerdydd. Mae'n esbonio'n fanwl yr hyn a ddiogelir gan yr yswiriant ar EICH cyfer chi.

Darllenwch ef yn ofalus a'i gadw mewn man diogel.

Gofynnwn i chi wirio ATODLEN EICH polisi, sy'n amgaeedig gyda'ch polisi CHI, er mwyn gwirio bod y manylion sydd gennym NI yn gywir.

Os oes gennych CHI unrhyw gwestiynau ar ôl darllen EICH polisi, dylech gysylltu â'ch yswiriwr CHI, sef Aviva neu'r GWEINYDDWR (gweler y clawr cefn am fanylion cyswllt).
Byddai'n ein helpu NI i ymdrin â'ch ymholiad CHI petaech CHI'n rhoi enw'r cynllun rydych CHI yn perthyn iddo.

**Taliadau galwad ffôn a recordio**
Mae galwadau i rifau 0800 o linellau tir ffôn a ffonau symudol yn y DU yn rhad ac am ddim. Codir tâl am alwadau i rifau sy'n dechrau 03, a hynny ar gyfraddau galwad cenedlaethol (gall taliadau amrywio gan ddibynnu ar ddarparwr EICH rhwydwaith) ac maent wedi'u cynnwys fel arfer mewn cynlluniau munudau cynhwysol o linellau tir ffôn a ffonau symudol. Er ein diogelwch ar y cyd, mae'n bosibl y caiff galwadau ffôn eu recordio a/neu eu monitro.

## YN BWYSIG IAWN – DARLLENWCH OS GWELWCH YN DDA

Nid yw unrhyw bolisi yswiriant yn diogelu rhag popeth. Dim ond y cymalau sydd wedi'u rhestru yn yr adran "Cwmpas y polisi" a yswirir o dan y polisi hwn (yn ddarostyngedig i amodau ac **EITHRIADAU**'r polisi).
NID yw'r yswiriant hwn yn cwmpasu unrhyw golled neu ddifrod nad yw wedi'i restru yn yr adran 'Cwmpas y polisi'.
Sicrhewch eich bod CHI yn darllen llyfryn y polisi yn ei gyfanrwydd ac yn holi ynghylch unrhyw beth nad ydych CHI yn ei ddeall.

**Eich hawliau i ganslo** – mae'r hawl statudol gennych CHI i ganslo EICH polisi o fewn 14 diwrnod, naill ai o ddyddiad prynu'r polisi neu o'r dyddiad rydych CHI'n cael dogfennaeth EICH polisi, pa un bynnag sy'n ddiweddarach – cyfeiriwch at yr amod 'hawliau i ganslo' ar dudalen 23 i gael rhagor o fanylion.

**Cwsmeriaid ag anableddau**
Mae'r polisi hwn, a dogfennaeth gysylltiedig arall, ar gael ar ffurf print mawr, fersiwn sain neu Braille. Os oes angen unrhyw un o'r ffurfiau hyn arnoch CHI, cysylltwch â'r GWEINYDDWR.

**Iaith a ddefnyddir**
Oni chytunir fel arall, nodir y telerau ac amodau contractiol, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r contract hwn yn Saesneg. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Gymraeg, ar gais.

## Y CONTRACT YSWIRIANT

Mae'r polisi hwn yn gontract yswiriant rhyngoch CHI a NI.

Mae'r elfennau canlynol yn sail i'r contract yswiriant rhyngoch CHI a NI; gofynnwn i chi eu darllen a'u cadw'n ddiogel:

- EICH llyfryn polisi
- yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar EICH ffurflen gais
- eich ATODLEN CHI
- unrhyw gymalau a arnodir ar EICH polisi, fel yr amlinellir yn EICH atodlen
- unrhyw newidiadau i'ch polisi yswiriant cartref CHI sydd wedi'u cynnwys mewn hysbysiadau a roddwyd gennym
- yr wybodaeth o dan y pennawd "Gwybodaeth bwysig" y byddwn yn ei darparu i CHI pan fyddwch yn cymryd EICH polisi, neu sydd wedi'i chynnwys yn EICH hysbysiad o adolygiad blynyddol

Yn gyfnewid am dderbyn EICH taliad CHI am y premiwm, byddwn yn darparu cwmpas yr yswiriant a bennir ar EICH atodlen yn unol â thelerau ac amodau'r llyfryn polisi hwn yn ystod cyfnod yr yswiriant.

## NODYN PWYSIG –
## GWYBODAETH A NEWIDIADAU Y MAE ANGEN I NI WYBOD AMDANYNT

Rhaid i CHI gymryd gofal rhesymol am ddarparu atebion cyflawn a chywir i'r cwestiynau rydym NI yn eu gofyn pan ydych CHI'n cymryd EICH polisi, yn gwneud newidiadau iddo, ac yn ei adnewyddu.

Dywedwch wrthym NI ar unwaith os yw unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gennych CHI yn newid ar ôl i CHI brynu EICH polisi, neu os oes unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a nodir ar y ffurflen gais neu ar EICH atodlen. Rhaid i CHI hefyd ddweud wrthym NI ar unwaith am y newidiadau canlynol:

- unrhyw addasiad, estyniad, neu waith adnewyddu i'ch eiddo CHI. Fodd bynnag, nid oes angen i CHI ddweud wrthym am addasiadau mewnol i'ch eiddo CHI oni bai eich bod CHI'n creu ystafell wely, ystafell ymolchi neu ystafell gawod ychwanegol
- unrhyw newid o ran y bobl sydd, neu a fydd, yn destun yr yswiriant
- unrhyw newid neu ychwanegiad i gynnwys yr eiddo sy'n destun yr yswiriant sy'n ei gwneud yn angenrheidiol cynyddu'r symiau a yswiriwyd neu'r terfynau a nodir ar atodlen EICH polisi
- os bwriedir benthyg, gosod neu isosod EICH eiddo, neu ei ddefnyddio at ddibenion busnes (heblaw gwaith clerigol achlysurol)
- os bydd EICH eiddo yn wag am unrhyw gyfnod parhaus o fwy na 60 diwrnod, neu
- os caiff unrhyw aelod o'ch aelwyd CHI, neu unrhyw unigolyn a fydd yn destun yswiriant o dan y polisi hwn, ei gyhuddo o gyflawni trosedd, neu ei ddyfarnu'n euog o wneud hynny (heblaw troseddau moduro)

Os ydych CHI'n ansicr, cysylltwch â NI.

Pan roddir gwybod i NI am newid, byddwn NI'n dweud wrthych CHI os bydd hyn yn cael

effaith ar EICH polisi, er enghraifft p'un a allwn NI dderbyn y newid ac, os felly, p'un a fydd y newid yn arwain at ddiwygio'r telerau sy'n berthnasol i'ch polisi CHI.

Mae'r canlynol yn gamau y gallwn eu cymryd os nad yw'r wybodaeth a ddarperir gennych CHI yn gyflawn ac yn fanwl gywir:

- gallwn NI ganslo EICH polisi a gwrthod talu yn achos unrhyw hawliad, neu
- mae'n bosibl na fyddwn NI'n talu swm yr hawliad yn llawn, neu
- gallwn NI addasu'r premiwm, neu
- mae'n bosibl y ceir effaith ar gwmpas yr yswiriant

**GWNEUD HAWLIAD** – Pe byddai angen i CHI wneud hawliad o dan y polisi hwn, dylech gyfeirio at dudalen 23 y llyfryn hwn.

Mae dogfennau'r polisi yn disgrifio'r eiddo sy'n destun yr yswiriant ac yn amlinellu'r holl amgylchiadau y gallwch CHI wneud hawliad yn eu cylch. Mae'n dweud wrthych CHI sut rydym NI'n setlo hawliadau a'r uchafswm y byddwn NI yn ei dalu.

Nid yw polisïau yswiriant yn eich diogelu rhag pob colled. Er enghraifft, ni allwch CHI wneud hawliad os yw'r unig ddifrod yn deillio o draul o ganlyniad i ddefnydd beunyddiol arferol. Mae dogfen y polisi hefyd yn esbonio'r EITHRIADAU – y pethau nad yw EICH yswiriant yn eu cwmpasu.

Ceir hefyd amodau penodol y mae'n rhaid i CHI eu bodloni. Er enghraifft, rhaid i CHI sicrhau bod EICH eiddo mewn cyflwr da a rhaid i CHI gymryd pob cam rhesymol i atal anaf, colled neu ddifrod.

Rhaid i CHI hefyd sicrhau bod y swm a yswiriwyd bob amser yn ddigonol i CHI.

Dylech CHI gadw cofnod ysgrifenedig (gan gynnwys copïau o lythyrau) o unrhyw wybodaeth rydych CHI'n ei rhoi i NI neu'r GWEINYDDWR.

# CANLLAW AR EICH POLISI

CYNNWYS Tudalen


Diffiniadau 1

Cwmpas y polisi (Rhan A) 4

- Adran 1 – Yswiriant ar gyfer CYNNWYS 5
- Adran 2 – Yswiriant ar gyfer DIFROD DAMWEINIOL i setiau teledu, erialau, systemau hi-fi, recordwyr fideo, offer cyfrifiadur cartref, datgodwyr a chwaraewyr DVD ac erialau derbyn (gan gynnwys dysglau lloeren), a chamerâu cylch cyfyng 9
- Adran 3 – Yswiriant ar gyfer cloeon ac allweddi 10
- Adran 4 – Yswiriant ar gyfer cynnwys rhewgelloedd ac oergelloedd 10
- Adran 5 – Yswiriant ar gyfer DIFROD DAMWEINIOL i ddrychau a gwydr 10
- Adran 6 – Budd-dal ar gyfer anaf angheuol 11
- Adran 7 – Gwaith gwella'r cartref gan denantiaid 11
- Adran 8 – Yswiriant ar gyfer llety amgen neu golli rhent 11
- Adran 9 – Yswiriant ar gyfer atebolrwydd personol 12
- Adran 10 – Yswiriant ar gyfer cyflenwad dŵr ar fesurydd 13
- Adran 11 – Yswiriant ar gyfer dogfennau 13
- Adran 12 – Cynnwys a dynnir i ffwrdd dros dro 14
- Adran 13 – Cynnwys mewn prifysgol, coleg neu ysgol breswyl 14
- Adran 14 – Mudo cynnwys cartrefi 15
- Adran 15 – Anrhegion priodas 15
- Adran 16 – Yswiriant ar gyfer olew tanwydd domestig 16
- Adran 17 – Yswiriant ar gyfer cynnwys yn yr awyr agored o fewn terfynau'r tŷ 16
- Adran 18 – Atebolrwydd tenantiaid 16
- Adran 19 – Yswiriant ar gyfer cynnwys ymwelwyr 17
- Adran 20 – Mynediad mewn argyfwng 17
- Adran 21 – Yswiriant rhag swyddogion ffug 17
- Adran 22 – Yswiriant ar gyfer achos o ddwyn eiddo o ganlyniad i ladrad â bygythiad 18

Estyniad i gwmpas yr yswiriant ar gyfer DIFROD DAMWEINIOL 19

Eithriadau cyffredinol 20

Gwneud hawliad 23

Amodau cyffredinol 24

Gweithdrefn cwynion 28

Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol 29

Manylion cyswllt (clawr cefn)

# DIFFINIADAU

Bob tro y byddwn NI'n defnyddio un o'r geiriau neu ymadroddion isod, bydd yr un ystyr yn perthyn iddo ble bynnag y mae'n ymddangos mewn PRIFLYTHRENNAU yn EICH polisi.

**DIFROD DAMWEINIOL**
Difrod a achosir yn sydyn ac yn annisgwyl gan rym allanol.

**SWM A YSWIRIWYD**
Dangosir y SWM A YSWIRIWYD ar yr ATODLEN. Dyma yw'r uchafswm y byddwn NI'n ei dalu (gan ddibynnu ar unrhyw amodau arbennig a nodir yn llyfryn y polisi) ar gyfer pob hawliad sy'n digwydd o ganlyniad i unrhyw ddigwyddiad unigol. Ni fydd yr uchafswm yn cael ei leihau os byddwn NI'n talu yn achos unrhyw hawliad.

Rhaid i'r SWM A YSWIRIWYD fod yn ddigonol i ddisodli’r eitemau a yswiriwyd ag eitemau newydd. Caiff addasiad ariannol ar gyfer traul ei ddidynnu o'r gost o ddisodli dillad a llieiniau tŷ.

**NODYN ARBENNIG: YSWIRIANT AR GYFER GWYLIAU CREFYDDOL**
Byddwn NI'n cynyddu'r SWM A YSWIRIWYD 15% yn ddiofyn yn ystod unrhyw fis yr ydych CHI'n dathlu gŵyl grefyddol.

**EITEMAU CLYWELEDOL/CYFRIFIADUROL – TAPIAU, RECORDIAU A DISGIAU**
Unrhyw ddisg, tâp neu record a ddefnyddir gydag offer clyweledol neu gyfrifiadurol, gan gynnwys cryno ddisgiau, recordiau, meddalwedd gyfrifiadurol, casetiau fideo, casetiau sain, tapiau, DVDau.

**AWDURDODAU**
Yr heddlu, y gwasanaeth tân, y gwasanaeth ambiwlans, neu'r gwasanaethau cymdeithasol.

**ADEILADAU/CARTREF**
EICH TŶ a'r gosodiadau a ffitiadau, adeiladau allanol, modurdai, siediau, tai gwydr, a selerau, y maent i gyd wedi'u cynllunio ac a ddefnyddir at ddibenion domestig yn unig, ac sydd i gyd wedi'u lleoli o fewn yr un safle yn y cyfeiriad a nodir ar yr ATODLEN.
Mae EICH ADEILADAU hefyd yn cynnwys terasau, patios, dreifiau, llwybrau troed, waliau, gatiau, perthi a ffensys sydd i gyd o fewn yr un safle yn y cyfeiriad a nodir ar yr ATODLEN.

**CYNNWYS (gweler y diffiniad ar wahân o EITEMAU Â RISG UCHEL)**
Pob nwydd (gan gynnwys dillad) sy'n eiddo i'ch AELWYD CHI neu y mae unrhyw aelod o'ch AELWYD CHI yn gyfreithiol gyfrifol amdano.

**<u>NID YW</u> HYN YN CYNNWYS Y CANLYNOL:**
1) CERBYDAU MODUR, carafanau, trelars, cychod, canŵau, byrddau syrffio, hwylfyrddau, hofrenfadau, cerbydau awyr, gleiderau, ac unrhyw ategolyn sydd wedi'i ddylunio ar gyfer ei ddefnyddio gydag unrhyw un o'r rhain.
2) Creaduriaid byw.
3) Unrhyw fath o goed, llwyni neu blanhigion (ond nid planhigion tŷ yr ydych CHI fel arfer yn eu cadw yn EICH TŶ).
4) Addurniadau mewnol (ond gweler yr adran ‘Atebolrwydd tenantiaid’ ar dudalen 16).
5) Cynlluniau, lluniadau, sicrhadau, tystysgrifau neu ddogfennau o unrhyw fath ac eithrio'r rhai a ddiffinnir fel ARIAN.
6) Unrhyw offer domestig sy'n rhan o uned osodedig. Er enghraifft, popty/hob gosodedig (ond gweler yr adran ‘Gwaith gwella'r cartref gan denantiaid’ ar dudalen 11).

7) Eiddo a berchenogir at ddibenion busnes, naill ai'n llwyr neu'n rhannol, neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyflogaeth.
8) Eiddo sydd wedi'i yswirio gan y polisi hwn, neu unrhyw bolisi arall, yn fwy penodol.
9) Gynnau ac arfau tanio.
10) Data, gwybodaeth neu raglenni cyfrifiadurol sydd wedi'u creu gan aelodau o'ch AELWYD CHI, neu ar eu cyfer yn benodol.

**CARDIAU CREDYD**

Cardiau credyd, cardiau siec, cardiau bancwyr, a chardiau debyd arian parod sy'n eiddo i CHI. (Nid yw hyn yn cynnwys cardiau ffyddlondeb siopau neu gardiau a ddelir at ddibenion busnes.)

**YR ARDAL EWROPEAIDD**

Ewrop, Gwlad yr Iorddonen, Madeira, yr Ynysoedd Dedwydd, ac ynysoedd Môr y Canoldir, a'r rhannau o'r gwledydd hynny sy'n ffinio ar Fôr y Canoldir.

**EITHRIADAU**

Rhywbeth nad yw EICH polisi yn eich yswirio CHI ar ei gyfer.

**GOSODIADAU A FFITIADAU**

Dodrefn, poptai, hobïau a thanciau pysgod gosodedig. Eitemau o wydr ac offer ymolchfa sefydlog. Pibellau, dwythellau, tanciau, gwifrau, ceblau, switshys, tanau, boeleri a gwresogyddion storio, y maent i gyd wedi'u gwneud yn sownd yn barhaol. Gorchuddion mur, gorchuddion llawr (heblaw carpedi) neu orchuddion nenfwd.

**EITEMAU Â RISG UCHEL**

Eitemau personol (ond nid dillad), gan gynnwys y canlynol:
Darluniau
Darnau o waith celf
Gemwaith
Oriorau
Eitemau o aur, arian neu fetelau gwerthfawr eraill
Casgliadau o stampiau, darnau arian a medalau
Offer ffotograffig
Eitemau ffwr
Camerâu fideo
Offer cyfrifiadur personol
Setiau teledu a radio, ac offer clyweledol

**TŶ**

Y TŶ neu'r fflat hunangynhwysol yn y cyfeiriad a yswiriwyd a nodir ar yr ATODLEN. Nid yw hyn yn cynnwys gosodiadau a ffitiadau, adeiladau allanol, modurdai, siediau, tai gwydr, selerau, terasau, patios, dreifiau, llwybrau troed, waliau, gatiau, perthi na ffensys nac unrhyw ran arall o'ch CARTREF CHI.

**ARIAN**

ARIAN sydd gennych CHI ar y ffurfiau canlynol am resymau personol:

1) Darnau arian neu arian papur cyfredol, sieciau a sieciau teithwyr.
2) Archebion post neu archebion arian, a stampiau post cyfredol.
3) Stampiau neu dystysgrifau Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (NS&I) a Bondiau Premiwm.

4) Tocynnau cinio, tocynnau teithio cyfredol, neu docynnau eraill â gwerth penodedig.
5) Stampiau masnach neu gardiau lleihaol.
6) Stampiau ar gyfer talu EICH trwydded deledu, neu filiau nwy neu drydan, neu filiau eraill.

**CERBYDAU MODUR**
Unrhyw gerbyd sydd wedi'i bweru'n drydanol neu'n fecanyddol, heblaw'r canlynol:

1) Cerbydau a ddefnyddir fel offer garddio domestig yn unig, a hynny o fewn terfynau'r tir sy'n perthyn i'ch TŶ CHI;
2) Cerbydau sy'n helpu pobl ag anabledd (cyn belled nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer eu defnyddio ar y ffyrdd);
3) Cartiau a throlïau golff;
4) Teganau a modelau a reolir o bell gan gerddwr;
5) Beiciau pedal a gynorthwyir yn drydanol nad yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith talu treth cerbyd ar gyfer eu defnyddio ar y ffyrdd (gweler www.gov.uk/electric-bike-rules am ragor o wybodaeth).

**CYFNOD YR YSWIRIANT**
Unrhyw gyfnod o amser a nodir ar EICH ATODLEN yr ydych CHI wedi talu'r premiwm amdano.

**EIDDO PERSONOL**
Bagiau, dillad, gemwaith, oriorau, eitemau ffwr, ysbienddrychau, offer chwaraeon, cerddorol a ffotograffig, ac unrhyw eitemau eraill rydych CHI fel arfer yn eu gwisgo neu'n eich cludo gyda CHI. Rhaid i bob eitem fod yn eiddo i CHI neu eich bod CHI'n gyfreithiol gyfrifol amdani.

**Y GWEINYDDWR**
Cyngor Caerdydd

**YR ATODLEN**
Mae'r ATODLEN yn rhan o'r polisi hwn. Rhoddir ATODLEN newydd i CHI pryd bynnag y mae telerau EICH contract yswiriant yn newid. Mae’r ATODLEN yn rhoi manylion am DDEILIAD Y POLISI, CYFNOD YR YSWIRIANT, yr eiddo sy'n destun yr yswiriant, Y SYMIAU A YSWIRIWYD, a'r cyfeiriad sy'n destun yr yswiriant.

**DIDDODREFN**
Dyma gyflwr y TŶ pan nad yw wedi'i ddodrefnu'n ddigon da i unrhyw un fyw ynddo. Rhaid iddo fod yn y cyflwr hwn am fwy na 60 diwrnod yn olynol.

**Y DEYRNAS UNEDIG**
Prydain Fawr (Cymru, Yr Alban, Lloegr, Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel) a Gogledd Iwerddon.

**GWAG**
Dyma gyflwr y TŶ pan nad ydych CHI nac unrhyw aelod o'ch AELWYD CHI yn byw ynddo am fwy na 60 diwrnod yn olynol.

**NI/AVIVA**
Aviva Insurance Limited

**CHI/EICH/EICH AELWYD**
Yr unigolyn (neu bobl) a enwir yn yr ATODLEN, ei bartner domestig, ac aelodau o'i deulu (neu deuluoedd) sy'n byw gydag ef yn barhaol.

# CWMPAS Y POLISI

## RHAN A

### YSWIRIANT AR GYFER CYNNWYS

Yn ystod CYFNOD YR YSWIRIANT, mae cwmpas EICH yswiriant yn cynnwys yr hyn a bennir o dan Ran A. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar y terfynau ac EITHRIADAU ARBENNIG (a nodir yn Rhan A), amodau cyffredinol (gweler tudalennau 24 i 27), ac EITHRIADAU CYFFREDINOL (gweler tudalennau 20 i 22).

### Y SAIL AR GYFER SETLO HAWLIADAU

Os caiff EICH CYNNWYS ei golli neu ei ddifrodi yn unrhyw un o'r amgylchiadau y ceir esboniad ohonynt yn adran briodol EICH polisi, gallwn NI ddewis gwneud y canlynol:

1) talu'r gost o'i atgyweirio;
neu
2) trefnu iddo gael ei atgyweirio;
neu
3) talu arian parod i CHI ar sail y gost o'i atgyweirio;
neu
4) rhoi eitem arall gyfwerth i CHI yn ei le;
neu
5) talu cost eitem arall gyfwerth;
neu
6) talu arian parod i CHI ar sail cost eitem arall gyfwerth, gan ddidynnu swm ariannol ar gyfer traul yn achos dillad a llieiniau, NEU os ydych CHI'n gwneud hawliad am unrhyw eitemau nad ydynt yn cael eu disodli.

Ni fyddwn NI'n talu am y gost o addasu neu ddisodli unrhyw eitemau neu rannau o eitemau nad ydynt wedi'u colli na'u difrodi ac sy'n rhan o set neu eitem arall o'r un math, lliw neu ddyluniad.

## ADRAN 1

### YSWIRIANT AR GYFER CYNNWYS

Os caiff EICH CYNNWYS ei golli neu ei ddifrodi tra'i fod yn EICH TŶ, adeiladau domestig allanol, modurdai, siediau, tai gwydr a selerau, byddwn NI'n setlo EICH hawliad yn unol â'r drefn a esboniwyd yn yr adran 'Y sail ar gyfer setlo hawliadau' ar dudalen 4. Bydd EICH yswiriant yn ddilys os achosir y golled hon neu ddifrod hwn gan unrhyw un o'r canlynol:

| | **EITHRIADAU ARBENNIG (Gweler hefyd yr adran 'Eithriadau cyffredinol' ar dudalennau 20 i 22)** |
|---|---|
| 1) Tân, ffrwydrad | – a) DIM EITHRIADAU ARBENNIG. |
| 2) Mellt, daeargryn | – a) DIM EITHRIADAU ARBENNIG. |
| 3) Mwg | – a) Colled neu ddifrod a achosir gan weithrediadau amaethyddol neu ddiwydiannol. |
| 4) Terfysg, aflonyddwch sifil, streiciau ac aflonyddwch o ran llafur a gwleidyddiaeth, fandaliaeth, a gweithredoedd gan bobl faleisus | – a) Colled neu ddifrod os yw EICH TŶ yn WAG neu'n DDIDDODREFN.<br>– b) Difrod maleisus a achosir gennych CHI neu westeion sy'n talu neu denantiaid.<br>– c) Colled neu ddifrod a achosir i gynnwys oergelloedd neu rewgelloedd gan doriad pŵer o ganlyniad i weithred fwriadol, neu yn sgil streiciau gan y cwmni (neu ei gyflogeion) sy'n cyflenwi EICH pŵer. |
| 5) Dŵr yn gollwng o unrhyw osodiad dŵr neu wresogi sefydlog, peiriant golchi dillad, peiriant golchi llestri, oergell, rhewgell, gwely dŵr neu danc pysgod | – a) Colled neu ddifrod os yw EICH TŶ yn WAG neu'n DDIDDODREFN.<br>– b) Colled neu ddifrod i'r offer ei hun. |

## EITHRIADAU ARBENNIG *(parhau)*

6) Olew yn gollwng o unrhyw osodiad gwresogi sefydlog, pibellau neu offer

– a) Colled neu ddifrod os yw EICH TŶ yn WAG neu'n DDIDDODREFN.

7) Dwyn neu ymgais i ddwyn

– a) Colled neu ddifrod os yw EICH TŶ yn WAG neu'n DDIDDODREFN.

– b) Colled neu ddifrod sy'n digwydd tra bo'ch TŶ CHI neu unrhyw ran ohono yn cael ei osod neu ei isosod. Fodd bynnag, bydd EICH yswiriant yn ddilys pe ceid mynediad i'ch TŶ trwy rym a thrais.

– c) Colled neu ddifrod a achosir gan dwyll, heblaw mewn achosion lle defnyddir twyll i gael mynediad i'ch TŶ CHI yn unig.

– d) Colli ARIAN. Fodd bynnag, bydd EICH yswiriant yn ddilys pe ceid mynediad i'ch TŶ CHI trwy rym a thrais (gweler hefyd Adran 21 o'r llyfryn polisi hwn).

– e) Colled neu ddifrod a achosir gennych CHI, neu gan aelodau o'ch AELWYD CHI, neu westeion sy'n talu neu denantiaid.

– f) Colled neu ddifrod os ydych CHI'n byw mewn fflat hunangynhwysol a bod y lladrad wedi digwydd o unrhyw ran o'r adeilad y mae gan bobl eraill fynediad iddi; neu os ydych CHI'n byw mewn fflat hunangynhwysol, oni bai fod rhywun wedi torri i mewn neu allan o'r adeilad drwy ddefnyddio grym a thrais, neu ei fod wedi twyllo'i ffordd i mewn i'r adeilad.

– g) Colled neu ddifrod i unrhyw adeilad allanol, modurdy, sièd, tŷ gwydr neu seler, neu ohono/ohoni, oni bai ei fod yn cyd-ddigwydd ag achos o gael mynediad trwy rym a thrais.

| | |
|---|---|
| 8) Storm neu lifogydd | – a) DIM EITHRIADAU ARBENNIG. |
| 9) Polion lampau, polion telegraff, coed neu ganghennau'n cwympo | – a) DIM EITHRIADAU ARBENNIG. |
| 10) Awyrennau a dyfeisiau awyrol eraill neu eitemau a ollyngwyd ohonynt | – a) DIM EITHRIADAU ARBENNIG. |
| 11) Erialau, ffitiadau erial a mastiau teledu, radio a dysglau lloeren yn torri neu'n cwympo | – a) DIM EITHRIADAU ARBENNIG. |
| 12) Ymsuddo, gwthiad neu dirlithriad | – a) Colled neu ddifrod a achosir gan dreulio'r arfordir. |
| 13) Ergyd gan unrhyw gerbyd, trên neu anifail | – a) Colled neu ddifrod a achosir gan bryfed neu anifeiliaid domestig. |

(**SYLWER –** i gael manylion o ran yr hyn a gwmpesir gan yswiriant DIFROD DAMWEINIOL safonol, cyfeiriwch at Adran 2 ar dudalen 9 ac Adran 5 ar dudalen 10. I gael manylion am yr adran DIFROD DAMWEINIOL opsiynol, cyfeiriwch at dudalen 19.)

**MAE'R UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 1 AM UNRHYW HAWLIAD UNIGOL FEL A GANLYN:**

1) Yn achos CYNNWYS – byddwn NI'n talu hyd at y SWM A YSWIRIWYD a nodir ar eich ATODLEN ddiweddaraf, gan ddibynnu ar y terfynau penodol, y ceir esboniad ohonynt isod.
2) Yn achos EITEMAU Â RISG UCHEL, ar gyfer cyfanswm eitemau o'r fath, nid fesul eitem – byddwn NI'n talu hyd at draean o'r SWM A YSWIRIWYD neu £5,000, pa un bynnag yw'r mwyaf.
3) Yn achos unrhyw EITEM Â RISG UCHEL unigol – byddwn NI'n talu hyd at £1,500.
4) Byddwn NI'n talu hyd at £2,000 (yn amodol ar derfynau 1–3 uchod a 5–7 isod) ar gyfer CYNNWYS y'i cedwir mewn adeiladau allanol, modurdai, siediau, tai gwydr a selerau.
5) Yn achos ARIAN – byddwn NI yn talu hyd at £300.
6) Yn achos CARDIAU CREDYD – byddwn NI yn talu hyd at £500 fesul cerdyn.
7) Yn achos EITEMAU CLYWELEDOL/CYFRIFIADUROL – TAPIAU, RECORDIAU A DISGIAU (ar gyfer cyfanswm eitemau o'r fath, nid fesul eitem) – byddwn NI yn talu hyd at £1,500.

**COFIWCH:**

Nodir y SWM A YSWIRIWYD ar yr ATODLEN. Dyma yw'r uchafswm y byddwn NI'n ei dalu (gan ddibynnu ar unrhyw amodau arbennig a nodir yn llyfryn y polisi) ar gyfer pob hawliad sy'n digwydd o ganlyniad i unrhyw ddigwyddiad unigol. Ni fydd yr uchafswm hwn yn cael ei leihau os byddwn NI'n talu yn achos unrhyw hawliad.

Rhaid i'r SWM A YSWIRIWYD fod yn ddigonol i ddisodli’r eitemau a yswiriwyd ag eitemau newydd. Caiff addasiad ariannol ar gyfer traul ei ddidynnu o'r gost o ddisodli dillad a llieiniau tŷ.

**ADRAN 2**

**YSWIRIANT AR GYFER DIFROD DAMWEINIOL I'CH SETIAU TELEDU A'U HERIALAU, SYSTEMAU HI-FI, RECORDWYR FIDEO, OFFER CYFRIFIADUR CARTREF, DATGODWYR, A CHWARAEWYR DVD TRA'U BOD YN EICH TŶ, AC ERIALAU, GAN GYNNWYS DYSGLAU LLOEREN A CHAMERÂU CYLCH CYFYNG SY'N SOWND I'CH TŶ**

Byddwn NI'n setlo EICH hawliad, yn unol â'r drefn a esboniwyd yn yr adran 'Y sail ar gyfer setlo hawliadau' ar dudalen 4, ar gyfer DIFROD DAMWEINIOL i'ch setiau teledu CHI a'u herialau, systemau hi-fi, recordwyr fideo, offer cyfrifiadur cartref, datgodwyr, a chwaraewyr DVD tra'u bod yn EICH TŶ CHI, ac erialau, gan gynnwys dysglau lloeren a chamerâu cylch cyfyng sy'n sownd i'ch TŶ CHI.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 2**
**(gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Y gost o ddisodli neu atgyweirio offer trydanol neu fecanyddol sydd wedi methu neu wedi'u camddefnyddio.
2) Difrod a achosir gan y canlynol:
   (i) fermin, pryfed, llwydni
   (ii) anifeiliaid domestig
   (iii) unrhyw broses lanhau, atgyweirio neu addasu
3) Difrod tra bo'ch TŶ CHI, neu unrhyw ran ohono, yn cael ei osod neu ei isosod.
4) Difrod os yw EICH TŶ yn WAG
5) Difrod i'r canlynol:
   (i) tapiau, casetiau, nodwyddau, cetrisau neu ddisgiau o unrhyw fath, neu feddalwedd gyfrifiadurol.
   (ii) unrhyw eitem nad yw'n perthyn i'ch AELWYD CHI ac nad yw EICH AELWYD yn gyfreithiol gyfrifol amdani.
   (iii) unrhyw eitem a berchenogir at ddibenion busnes, naill ai'n llwyr neu'n rhannol, neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyflogaeth.
   (iv) unrhyw eitem sydd wedi'i dylunio i fod yn gludadwy.
   (v) unrhyw gonsolau gemau.
6) Data, gwybodaeth neu raglenni cyfrifiadurol sydd wedi'u creu gan aelodau o'ch AELWYD CHI, neu ar eu cyfer yn benodol.
7) Difrod a achosir drwy fethu â defnyddio eitem yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr.

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 2**

Byddwn NI'n talu hyd at y SWM A YSWIRIWYD yn amodol ar y terfynau a nodir yn Adran 1 ar dudalen 7.

## ADRAN 3

### YSWIRIANT AR GYFER CLOEON AC ALLWEDDI

Byddwn NI'n talu'r gost o ddisodli allweddi a chloeon ar gyfer drysau allanol ac am larymau EICH TŶ os collwyd allweddi'r cloeon hyn neu y cawsant eu dwyn unrhyw le yn Y DEYRNAS UNEDIG.

**NID OES UNRHYW EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 3**
**(Ond gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

### YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 3

Byddwn NI yn talu hyd at y SWM A YSWIRIWYD.

## ADRAN 4

### YSWIRIANT AR GYFER CYNNWYS OERGELLOEDD A RHEWGELLOEDD

Byddwn NI'n setlo EICH hawliad, yn unol â'r drefn a esboniwyd yn adran 'Y sail ar gyfer setlo hawliadau' ar dudalen 4, os caiff cynnwys EICH oergell neu rewgell ei ddifetha gan y canlynol:

1) Methiant damweiniol yr uned rewi
2) Mwg o'ch rhewgell neu oergell CHI
3) Methiant damweiniol o'r cyflenwad trydan neu nwy nad achosir gan weithred fwriadol yr awdurdod cyflenwi
4) Ffiwsiau domestig yn chwythu

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 4**
**(Ond gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Colled neu ddifrod a achosir gan y canlynol:
   a) fermin, pryfed (oni bai eu bod yn achosi methiant yr uned rewi neu fethiant y cyflenwad trydan neu nwy), neu lwydni
   b) unrhyw broses lanhau, atgyweirio neu addasu
2) Colled neu ddifrod i'r canlynol:
   a) cynnwys rhewgelloedd neu oergelloedd nad ydynt mewn adeilad sy'n rhan o'ch TŶ CHI
   b) unrhyw eitem a ddalir at ddibenion busnes, naill ai'n llwyr neu'n rhannol, neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyflogaeth

### YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 4

Byddwn NI'n talu hyd at y SWM A YSWIRIWYD.

## ADRAN 5

### YSWIRIANT AR GYFER DIFROD DAMWEINIOL I DDRYCHAU A GWYDR

Byddwn NI'n setlo EICH hawliad, yn unol â'r drefn a esboniwyd yn adran 'Y sail ar gyfer setlo hawliadau' ar dudalen 4, os torrir drychau, wynebau gwydr a gwydr sefydlog mewn dodrefn, poptai neu hobïau ceramig yn EICH TŶ yn ddamweiniol.

**NID OES UNRHYW EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 5**
**(Ond gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 5**
Byddwn NI'n talu hyd at y SWM A YSWIRIWYD a nodir ar EICH ATODLEN ddiweddaraf.

## ADRAN 6

### BUDD-DAL AR GYFER ANAF ANGHEUOL

Byddwn NI'n talu £5,000 os ydych CHI'n marw o ganlyniad uniongyrchol i'r canlynol:
(a) Damwain, ymosodiad neu dân yn EICH TŶ.
(b) Damwain wrth deithio fel teithiwr yn talu ar drên neu fws, neu mewn tacsi trwyddedig.
(c) Ymosodiad ar y stryd.

Er mwyn i NI dalu yn achos hawliad, rhaid i'ch marwolaeth CHI ddigwydd o fewn tri mis i ddyddiad y digwyddiad.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 6**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Unrhyw ddigwyddiad sy'n digwydd y tu allan i'r DEYRNAS UNEDIG neu Iwerddon.

## ADRAN 7

### GWAITH GWELLA'R CARTREF GAN DENANTIAID

Byddwn NI'n setlo EICH hawliad, yn unol â'r drefn a esboniwyd yn adran ‘Y sail ar gyfer setlo hawliadau’ ar dudalen 4, os collir neu achosir difrod i welliannau rydych CHI, fel tenant, wedi'u gwneud i'r eiddo. Rhaid i'r golled neu ddifrod fod wedi'i achosi gan unrhyw un o'r amgylchiadau a restrir o dan Adran 1 o'r polisi.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 7**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Difrod i ffensys, gatiau neu berthi yn sgil storm neu lifogydd
2) POB EITHRIAD ARBENNIG sy'n berthnasol i Adran 1

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 7**
Byddwn yn talu hyd at 20% o'r SWM A YSWIRIWYD a nodir ar EICH ATODLEN ddiweddaraf, neu £2,000, pa un bynnag yw'r mwyaf.

## ADRAN 8

### YSWIRIANT AR GYFER LLETY AMGEN NEU GOLLI RHENT

Byddwn NI'n talu'r canlynol os na ellir byw yn EICH TŶ o ganlyniad i golled neu ddifrod y mae EICH yswiriant yn ddilys ar ei gyfer yn achos unrhyw un o'r amgylchiadau a nodir o dan Adran 1 ar dudalennau 5–8 o'r polisi hwn:

1) Cost llety rhesymol os yw'n angenrheidiol (gan gynnwys rhoi anifeiliaid anwes mewn cytiau cŵn, cathdai ac ati).
2) Rhent sy'n ddyledus i CHI neu y dylech CHI ei dalu.

**NID OES EITHRIADAU ARBENNIG (Gweler yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 8**

Byddwn NI'n talu hyd at 20% o'r SWM A YSWIRIWYD a nodir ar EICH ATODLEN ddiweddaraf.

Pan ydym yn cyfeirio at gost llety rhesymol yn yr adran, golyga hyn y byddwn NI'n talu am lety amgen ar eich cyfer CHI a'ch anifeiliaid anwes CHI, gan ystyried holl amgylchiadau EICH hawliad, gan gynnwys ffactorau fel EICH anghenion eich hun, y llety amgen (a'i gostau cymharol) sydd ar gael yn yr ardal, a'r cyfnod o amser y bydd ei angen arnoch CHI. Byddwn NI'n falch o drafod hyn gyda CHI ac mae hefyd yn bosibl y byddwn ni'n gallu cynnig cymorth o ran dod o hyd i lety mewn amgylchiadau anodd.

**ADRAN 9**

**YSWIRIANT AR GYFER ATEBOLRWYDD PERSONOL**

Byddwn NI'n eich yswirio ar gyfer yr holl symiau y byddwch CHI'n dod yn gyfreithiol atebol am eu talu ar gyfer damweiniau sy'n arwain at y canlynol:

a) anaf corfforol neu anhwylder unrhyw unigolyn (ond nid aelod o'ch AELWYD CHI na'ch cyflogeion CHI heblaw cyflogeion domestig)

neu

b) colled neu ddifrod i eiddo.

**DYFARNIADAU LLYS NAS ADFERWYD**

Byddwn yn talu am yr holl symiau a ddyfarnwyd i CHI ond nad ydynt wedi'u talu ymhen tri mis o ddyddiad y dyfarniad yn yr achosion canlynol:

- anaf corfforol neu anhwylder damweiniol
- colled neu ddifrod damweiniol i eiddo materol, ar yr amod:
  - y byddai Adran 9 o'r polisi hwn wedi bod yn weithredol pe byddai'r dyfarniad wedi'i wneud yn eich erbyn CHI; ac
  - y gwnaed y dyfarniad mewn llys yn Y DEYRNAS UNEDIG; ac
  - nad yw'r dyfarniad yn amodol i apêl sydd yn yr arfaeth.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 9**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Colled neu ddifrod i eiddo sy'n berchen i un o'r canlynol, neu dan ei ofal:
   (a) EICH AELWYD
   (b) unrhyw unigolyn arall sy'n byw gyda CHI yn barhaol
   (c) unrhyw unigolyn a gyflogir gan aelodau o'ch AELWYD CHI
2) Atebolrwydd sy'n deillio o'r ffaith eich bod CHI'n berchen ar unrhyw dir neu adeilad, neu'n ei feddiannu, heblaw'r ADEILAD y cyfeirir ato ar eich ATODLEN ddiweddaraf.
3) Atebolrwydd sy'n deillio o'ch crefft, proffesiwn neu gyflogaeth.
4) Atebolrwydd sy'n deillio o ddefnyddio'r canlynol neu o fod yn berchen arnynt neu'n meddu arnynt:
   (a) Anifeiliaid – ond mae eich yswiriant yn ddilys ar gyfer cŵn domestig ac eithrio'r rhai a enwir yn Adran 1 (1) o Ddeddf Cŵn Peryglus 1991 (neu unrhyw ddeddfwriaeth ddiwygio), cathod domestig, neu geffylau a ddefnyddir at ddibenion marchogaeth breifat er pleser neu hela'n breifat
   (b) Arfau tanio – ond mae eich yswiriant yn ddilys ar gyfer drylliau (shotguns) neu ynnau aer, y caniateir i CHI fod yn berchen arnynt heb feddu ar drwydded arfau tanio
   (c) CERBYDAU MODUR
   (d) Cerbydau awyr sydd wedi'u gyrru'n fecanyddol. Fodd bynnag, mae EICH yswiriant yn

ddilys ar gyfer teganau neu fodelau
(e) Carafannau
(f) Cychod, byrddau a cherbydau sydd wedi'u dylunio ar gyfer eu defnyddio ar ddŵr neu ynddo, heblaw'r canlynol:
- y rheini a yrrir gan rwyfau neu badlau yn unig; neu
- deganau neu fodelau a reolir gan gerddwyr

5) Atebolrwydd petasech CHI'n trosglwyddo unrhyw glefyd neu feirws.
6) Atebolrwydd o ganlyniad i unrhyw gytundeb neu gontract, oni bai yr oeddech CHI'n atebol cyn i CHI ymrwymo i'r cytundeb neu gontract.
7) Anaf corfforol neu anhwylder sy'n digwydd i CHI.
8) Atebolrwydd sy'n deillio o unrhyw weithredoedd bwriadol neu faleisus.

**DEDDF CŴN PERYGLUS 1991**
Mae Deddf Cŵn Peryglus 1991 yn gosod gofynion penodol ar fathau penodol o gŵn. Mae hefyd yn gosod gofynion mewn perthynas â chŵn sydd, fel y disgrifir yn y ddeddf, yn beryglus o afreolus. Am ragor o gyngor, cyfeiriwch at wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus: www.opsi.gov.uk, neu cysylltwch â'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth.

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 9**

Yr uchafswm y byddwn NI'n ei dalu ar gyfer hawliadau o dan **YSWIRIANT AR GYFER ATEBOLRWYDD PERSONOL** yw £2,000,000 oni bai fod yr hawliad yn ymwneud â chyflogai domestig a oedd yn gweithio i CHI ar adeg y digwyddiad. Yn yr achos hwn, byddwn NI'n talu hyd at £5,000,000. Mae hyn yn wir ar gyfer pob hawliad a wneir yn eich erbyn CHI o ganlyniad i unrhyw ddigwyddiad unigol. Byddwn NI hefyd yn talu unrhyw hawliadau am gostau a threuliau ychwanegol a wneir yn eich erbyn CHI, neu yr ydych CHI'n mynd iddynt gyda'n caniatâd ysgrifenedig NI. Yr uchafswm y byddwn NI'n ei dalu ar gyfer hawliadau o dan yswiriant ar gyfer **DYFARNIADAU LLYS NAS ADFERWYD** yw £1,000,000.

## ADRAN 10

**YSWIRIANT AR GYFER DŴR AR FESURYDD**

Byddwn NI'n setlo EICH hawliad, yn unol â'r drefn a esboniwyd yn adran ‘Y sail ar gyfer setlo hawliadau’ ar dudalen 4, ar gyfer achosion o golli dŵr ar fesurydd yr ydych CHI'n gyfrifol amdano a achoswyd gan unrhyw un o'r amgylchiadau a restrir o dan Adran 1 ar dudalennau 5–8 o'r llyfryn polisi hwn.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 10**
**(Ond gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Colled neu ddifrod os yw EICH TŶ yn WAG neu'n DDIDDODREFN
2) Unrhyw EITHRIAD ARBENNIG sy'n berthnasol i ADRAN 1

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 10**
Byddwn NI'n talu hyd at £1,000.

## ADRAN 11

**YSWIRIANT AR GYFER DOGFENNAU**

Byddwn NI'n setlo EICH hawliad, yn unol â'r drefn a esboniwyd yn adran ‘Y sail ar gyfer

setlo hawliadau' ar dudalen 4, yn achos colled neu ddifrod i ddogfennau (heblaw ARIAN) tra'u bod ar adnau ar gyfer eu gwarchod yn ofalus mewn unrhyw goffor adneuo banc, banc, neu ystafell ddiogel cyfreithwyr yn YR ARDAL EWROPEAIDD. Rhaid i'r golled neu ddifrod fod wedi'i achosi gan unrhyw un o'r amgylchiadau a restrir o dan Adran 1 ar dudalennau 5–8 o'r llyfryn polisi hwn.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 11**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 11**
Byddwn NI'n talu hyd at £1,000.

## ADRAN 12

### CYNNWYS A DYNNIR I FFWRDD DROS DRO

Byddwn NI'n setlo EICH hawliad, yn unol â'r drefn a esboniwyd yn adran 'Y sail ar gyfer setlo hawliadau' ar dudalen 4, a achosir gan unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yng nghwmpas sylfaenol yr yswiriant o dan Adran 1 ar dudalennau 5–8 o'r llyfryn polisi hwn, tra bo'ch CYNNWYS CHI wedi'i dynnu i ffwrdd o'r TŶ dros dro, fel a ganlyn:

a) i unrhyw fanc neu goffor adneuo, neu i unrhyw gartref neu adeilad preifat lle rydych CHI'n byw, wedi'ch cyflogi, neu'n gweithio yn Y DEYRNAS UNEDIG; neu
b) i unrhyw le arall yn Y DEYRNAS UNEDIG

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 12(a)**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Colled neu ddifrod i ARIAN, oni bai fod rhywun wedi torri mewn neu allan o adeilad drwy ddefnyddio grym a thrais

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 12(b)**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

2) Colled neu ddifrod a achosir gan storm, llifogydd neu ddifrod maleisus
3) Colled neu ddifrod a achosir gan achos o ddwyn neu ymgais i ddwyn, oni bai fod rhywun wedi torri i mewn neu allan o adeilad mewn ffordd a olygodd defnyddio grym neu drais i gael mynediad neu ymadael
4) Colled neu ddifrod a achoswyd tra oeddech CHI mewn siop ddodrefn, ystafell werthu neu arddangosfa

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 12**
BYDDWN NI'n talu hyd at 20% o'r SWM A YSWIRIWYD yn amodol ar y terfynau a nodir yn Adran 1 ar dudalen 7.

## ADRAN 13

### CYNNWYS MEWN PRIFYSGOL, COLEG NEU YSGOL BRESWYL

Byddwn NI'n setlo EICH hawliad, yn unol â'r drefn a esboniwyd yn adran 'Y sail ar gyfer setlo hawliadau' ar dudalen 4, ar gyfer colled neu ddifrod i GYNNWYS a gymerir o'ch TŶ CHI, dros dro, i goleg, prifysgol neu ysgol breswyl yn Y DEYRNAS UNEDIG, a achosir gan unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yng nghwmpas sylfaenol yr yswiriant (Adran 1 – tudalennau 5–8).

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 13**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Unrhyw EITHRIAD ARBENNIG a restrir o dan Adran 1.

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 13**
Byddwn NI'n talu hyd at £2,000 yn amodol ar y terfynau a nodir yn Adran 1 ar dudalen 7.

## ADRAN 14

### MUDO CYNNWYS CARTREFI

Oni bai eich bod CHI wedi'ch yswirio fel arall, byddwn NI'n sicrhau bod cwmpas EICH yswiriant yn cynnwys colled neu ddifrod damweiniol i'ch CYNNWYS CHI yn ystod y broses o fudo a achosir gan fudwyr proffesiynol ar hyd y ffordd i gyfeiriad newydd yn Y DEYRNAS UNEDIG.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 14**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

Colled neu ddifrod:

1) i eitemau o tsieni, crochenwaith neu eitemau eraill sy'n frau oni bai eu bod wedi'u pacio gan bacwyr proffesiynol
2) tra bo'ch CYNNWYS CHI yn cael ei storio neu'n cael ei symud i storfa neu ohoni
3) i ARIAN, EITEMAU Â RISG UCHEL, DOGFENNAU a sicrhadau
4) a achosir gan grafu, tolcio neu gleisio
5) a achosir gan leithder, fermin neu ffyngau

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 14**
Byddwn NI'n talu hyd at y SWM A YSWIRIWYD, yn amodol ar y terfynau a nodir yn Adran 1 ar dudalen 7.

## ADRAN 15

### ANRHEGION PRIODAS

Byddwn NI'n setlo EICH hawliad, yn unol â'r drefn a esboniwyd yn adran ‘Y sail ar gyfer setlo hawliadau’ ar dudalen 4, ar gyfer colled neu ddifrod i anrhegion priodas a achosir gan yr amgylchiadau a amlinellir yng nghwmpas sylfaenol yr yswiriant (Adran 1 – tudalennau 5–8), am gyfnod o 30 diwrnod cyn a 30 diwrnod ar ôl i CHI neu aelod o'ch AELWYD CHI briodi.

Mae cwmpas yr yswiriant yn ddilys pan fo'r anrhegion:

- yn EICH TŶ
- yn yr adeilad y cynhelir gwledd y briodas
- yng nghartref y pâr priod
- yn cael eu cludo rhwng unrhyw un o'r lleoedd a amlinellir uchod

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 15**
Byddwn NI'n talu hyd at 15% o'r SWM A YSWIRIWYD, yn amodol ar y terfynau a nodir yn Adran 1 ar dudalen 7.

Caiff y SWM A YSWIRIWYD ei gynyddu 15% dros dro er mwyn darparu'r cwmpas yswiriant hwn.

## ADRAN 16

### YSWIRIANT AR GYFER OLEW TANWYDD DOMESTIG

Byddwn NI'n talu am olew tanwydd domestig a gollwyd o ganlyniad i ddifrod a achoswyd gan unrhyw un o'r digwyddiadau a restrir o dan Adran 1 ar dudalennau 5–8 o'r llyfryn polisi hwn. Rhaid i'r tanwydd fod wedi'i storio o fewn terfynau EICH TŶ.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 16**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Pob EITHRIAD ARBENNIG sy'n berthnasol i Adran 1.

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 16**
Byddwn NI'n talu hyd at £1,000.

## ADRAN 17

### YSWIRIANT AR GYFER CYNNWYS YN YR AWYR AGORED O FEWN TERFYNAU'R TŶ

Byddwn NI'n setlo EICH hawliad, yn unol â'r drefn a esboniwyd yn adran ‘Y sail ar gyfer setlo hawliadau’ ar dudalen 4, ar gyfer colled neu ddifrod i GYNNWYS tra'i fod yn yr awyr agored ond o fewn terfynau'r TŶ o hyd. Rhaid i'r golled neu ddifrod fod wedi'i achosi gan unrhyw un o'r amgylchiadau a restrir o dan Adran 1 ar dudalennau 5–8 o'r llyfryn polisi hwn.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 17**
**(Gweler hefyd yr adran ‘Eithriadau cyffredinol’ ar dudalennau 20 i 22)**

1) Colled neu ddifrod i feiciau pedal
2) Colled neu ddifrod os yw EICH TŶ yn WAG neu'n DDIDDODREFN
3) Unrhyw EITHRIAD ARBENNIG a restrir o dan Adran 1

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 17**
Byddwn NI'n talu hyd at £500

## ADRAN 18

### ATEBOLRWYDD

### TENANTIAID

Oni bai eich bod CHI wedi'ch yswirio fel arall, bydd cwmpas yr yswiriant a ddarperir gennym NI yn ddilys os ydych CHI'n gyfreithiol gyfrifol, fel tenant, am y canlynol:

a) difrod i OSODIADAU A FFITIADAU ac addurniadau mewnol EICH landlord a achoswyd gan unrhyw un o'r amgylchiadau a amlinellir yng nghwmpas sylfaenol yr yswiriant (yn Adran 1 – tudalennau 5–8)
b) DIFROD DAMWEINIOL i wydr sefydlog mewn ffenestri a drysau, goleuadau gwyntyll, ffenestri to o wydr, sblasgefnau, offer ymolchfa sefydlog a gwasanaethau tanddaearol i'ch TŶ CHI

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 18**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Unrhyw EITHRIADAU ARBENNIG a restrir o dan Adran 1 – tudalennau 5–8.
2) Costau gwaith cynnal a chadw a gwaith ailaddurno arferol
3) Unrhyw golled neu ddifrod os yw EICH TŶ yn WAG neu'n DDIDDODREFN
4) Difrod i bibellau tanddaearol oherwydd diffyg neu gyfyngiad o safbwynt eu dyluniad, eu gwneuthuriad, neu'r dull o'u hadeiladu neu eu gosod

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 18(a)**
Byddwn NI'n talu hyd at 20% o'r SWM A YSWIRIWYD a nodir ar EICH ATODLEN ddiweddaraf.

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 18(b)**
Byddwn NI'n talu hyd at y SWM A YSWIRIWYD.

## ADRAN 19

**YSWIRIANT AR GYFER CYNNWYS YMWELWYR**

Byddwn ni'n talu am golled neu ddifrod i GYNNWYS unrhyw unigolyn sy'n ymweld â'ch TŶ CHI, yn ystod cyfnod yr ymweliad, a achosir gan unrhyw un o'r digwyddiadau a gwmpesir o dan Adran 1 fel y nodir ar dudalennau 5–8 o'r llyfryn polisi hwn.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 19**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Pob EITHRIAD ARBENNIG sy'n berthnasol i Adran 1.
2) Colled neu ddifrod os yw'r CYNNWYS wedi'i yswirio fel arall.
3) CYNNWYS sy'n eiddo i westai sy'n talu neu letywr.

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 19**
Byddwn NI'n talu hyd at gyfanswm o £750.

## ADRAN 20

**MYNEDIAD MEWN ARGYFWNG**

Byddwn NI'n talu am ddifrod i'ch TŶ CHI yr ydych CHI'n gyfreithiol gyfrifol amdano a achosir gan AWDURDODAU wrth iddynt gael mynediad drwy rym i'ch TŶ CHI yn achos argyfwng meddygol.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 20**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 20**
Byddwn NI'n talu hyd at £750.

## ADRAN 21

**YSWIRIANT RHAG SWYDDOGION FFUG**

Byddwn NI'n talu am ARIAN y mae unigolyn/unigolion wedi'i ddwyn o ganlyniad iddo/iddynt gael mynediad anghyfreithlon i'ch TŶ CHI drwy dwyll trwy honni bod yn swyddog.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 21**
**(Ond gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Unrhyw achos o ddwyn nas adroddwyd i'r heddlu o fewn 24 awr (rhaid i CHI sicrhau eich

bod yn cael rhif cyfeirnod trosedd)

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 21**
Byddwn NI'n talu hyd at £300.

**ADRAN 22**

**YSWIRIANT AR GYFER ACHOS O DDWYN EIDDO O GANLYNIAD I LADRAD Â BYGYTHIAD**
**(Achos o fygio)**

Byddwn NI'n talu am EICH CYNNWYS sydd wedi'i ddwyn os yw'r achos o ddwyn o ganlyniad i ladrad â bygythiad, neu achos o fygio, tra'ch bod CHI'n cludo neu'n gwisgo'r eiddo unrhyw le yn Y DEYRNAS UNEDIG.

**EITHRIADAU ARBENNIG AR GYFER ADRAN 22**
**(Ond gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Unrhyw achos o ddwyn nas adroddwyd i'r heddlu o fewn 24 awr (rhaid i CHI sicrhau eich bod yn cael rhif cyfeirnod trosedd)

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN ADRAN 22**
Byddwn NI'n talu hyd at £300.

# ESTYNIAD I GWMPAS YR YSWIRIANT AR GYFER DIFROD DAMWEINIOL

**NID YW'R RHAN HON O'R YSWIRIANT YN BERTHNASOL ONI THALWYD Y PREMIWM YCHWANEGOL PRIODOL A BOD EICH ATODLEN YN NODI BOD DIFROD DAMWEINIOL WEDI'I GWMPASU.**

**DIFROD DAMWEINIOL**

Byddwn NI'N eich yswirio rhag DIFROD DAMWEINIOL i'ch CYNNWYS CHI tra'i fod yn EICH TŶ. Byddwn NI'n setlo hawliadau yn unol â'r drefn a esboniwyd yn yr adran ‘Y sail ar gyfer setlo hawliadau’ ar dudalen 4.

**EITHRIADAU ARBENNIG**
**(Gweler hefyd yr EITHRIADAU CYFFREDINOL ar dudalennau 20 i 22)**

1) Y gost o ddisodli neu atgyweirio offer trydanol neu fecanyddol sydd wedi methu neu wedi'u camddefnyddio.

2) Difrod a achosir gan y canlynol:
   (i) traul
   (ii) fermin, pryfed, gwyfynod, llwydni, pydredd gwlyb a phydredd sych neu ffyngau
   (iii) anifeiliaid domestig
   (iv) unrhyw broses lanhau, atgyweirio, adfer, ddatgymalu neu addasu
   (v) lleithder a rhwd
   (vi) amodau golau a thywydd ac unrhyw beth sy'n digwydd yn raddol
   (vii) gwesteion sy'n talu neu denantiaid

3) Difrod tra bo'ch TŶ CHI, neu unrhyw ran ohono, yn cael ei osod neu ei isosod.

4) Difrod os yw EICH TŶ yn WAG.

5) Difrod i'r canlynol:
   (i) unrhyw eitem nad yw’n perthyn i’ch AELWYD CHI ac nad yw EICH AELWYD yn gyfreithiol gyfrifol amdani
   (ii) unrhyw eitem a berchenogir at ddibenion busnes, naill ai'n llwyr neu'n rhannol, neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyflogaeth
   (iii) bwyd neu ddiod, a bwyd mewn rhewgelloedd
   (iv) dillad
   (v) lensys cyffwrdd a lensys cornbilennol

6) Data, gwybodaeth neu raglenni cyfrifiadurol sydd wedi'u creu gan aelodau o'ch AELWYD CHI, neu ar eu cyfer yn benodol.

**YR UCHAFSWM Y BYDDWN NI'N EI DALU O DAN YR ESTYNIAD HWN**

Byddwn NI'N talu hyd at y SWM A YSWIRIWYD ar gyfer unrhyw hawliad unigol, yn amodol ar y terfynau a nodir ar dudalen 7 o dan Adran 1.

# EITHRIADAU CYFFREDINOL

Mae'r **EITHRIADAU** canlynol yn berthnasol i'ch polisi CHI:

**1) RHYFEL A THERFYSGAETH**

**NID YW CWMPAS Y POLISI HWN YN EICH YSWIRIO RHAG Y CANLYNOL:**

**A) RHYFEL**

Unrhyw ganlyniad sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o unrhyw un o'r canlynol, neu unrhyw beth sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r canlynol, p'un a yw unrhyw achos neu ddigwyddiad arall wedi cyfrannu at ganlyniad o'r fath ynteu beidio:

rhyfel, goresgyniad, gweithred gan elyn o dramor, rhyfela neu weithred neu weithrediadau rhyfelgar (p'un a yw rhyfel wedi'i ddatgan ynteu beidio), rhyfel cartref, miwtini, gwrthryfel, chwyldro, gwrthryfel milwrol, terfysg neu derfysg cyhoeddus, ar raddfa sy'n gymesur neu gystal â gwrthgodiad, pŵer milwrol neu bŵer trawsfeddianedig.

**B) TERFYSGAETH**

Unrhyw ganlyniad a achosir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy fodd niwclear a/neu fodd cemegol a/neu fodd biolegol a/neu fodd radiolegol, neu unrhyw beth sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r moddion hynny, ac sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o derfysgaeth, neu unrhyw beth sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, p'un a yw unrhyw achos neu ddigwyddiad arall wedi cyfrannu at ganlyniad o'r fath ynteu beidio.

**Diffinnir terfysgaeth fel unrhyw weithred neu weithrediadau sy'n cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:**

**a)** defnyddio grym a/neu drais neu fygwth eu defnyddio,

a/neu

**b)** niwed neu ddifrod i fywyd neu eiddo (neu fygwth achosi niwed neu ddifrod o'r fath), gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i niwed neu ddifrod drwy fodd niwclear a/neu fodd cemegol a/neu fodd biolegol a/neu fodd radiolegol, a achosir neu a berir gan unrhyw unigolyn neu unigolion neu grŵp neu grwpiau o bobl, at ddibenion gwleidyddol, crefyddol, ideolegol neu debyg, a hynny'n rhannol neu'n llwyr, gan gynnwys y bwriad i ddylanwadu ar unrhyw lywodraeth a/neu i godi ofn ar y cyhoedd neu unrhyw ran ohono, neu yr honnir ei fod wedi'i achosi neu ei beri, yn rhannol neu'n llwyr, at ddibenion o'r fath

**C) GWEITHREDOEDD ERAILL**

Unrhyw ganlyniad sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o unrhyw un o'r canlynol, neu unrhyw beth sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r canlynol, p'un a yw unrhyw achos neu ddigwyddiad arall wedi cyfrannu at ganlyniad o'r fath ynteu beidio:

unrhyw gam weithredu a gymerir i reoli, atal neu drechu, neu sy'n ymwneud â'r canlynol mewn unrhyw ffordd:

1) Rhyfel neu

2) Terfysgaeth uchod.

**2) TARANAU SONIG**

**NID YW'R POLISI HWN YN YSWIRIO RHAG Y CANLYNOL:**

Colled neu ddifrod i eiddo a achosir gan donnau pwysedd o awyrennau sy'n teithio ar gyflymder sain neu gyflymder sy'n rhagori arno.

**3) YMBELYDREDD**

**NID YW'R POLISI HWN YN YSWIRIO RHAG Y CANLYNOL:**

Colled neu ddifrod sy'n ymwneud â'r canlynol:

a) ymbelydredd sy'n ïoneiddio neu halogiad ymbelydrol sy'n deillio o danwydd niwclear neu wastraff niwclear; neu

b) priodweddau ymbelydrol, gwenwynig neu ffrwydrol, neu briodweddau peryglus eraill, offer niwclear ffrwydrol.

**4) TERFYSG NEU DERFYSG CYHOEDDUS**

**NID YW'R POLISI HWN YN YSWIRIO RHAG Y CANLYNOL:**

Colled neu ddifrod a achosir gan derfysg neu derfysg cyhoeddus y tu allan i'r DEYRNAS UNEDIG, neu y cyfrannir ato ganddo, neu sy'n deillio ohono.

**5) ATAFAELU NEU DDIFEDDIANNU**

**NID YW'R POLISI HWN YN YSWIRIO RHAG Y CANLYNOL:**

Colled neu ddifrod i unrhyw eiddo a achosir yn ystod achos o atafaelu neu ddifeddiannu, neu ymgais i wneud y naill neu'r llall ohonynt, gan swyddogion tollau neu awdurdodau eraill.

**6) GOSTYNGIAD MEWN GWERTH A CHOLLED ANUNIONGYRCHOL**

**NID YW'R POLISI HWN YN YSWIRIO RHAG Y CANLYNOL:**

(a) Gostyngiad mewn gwerth

(b) Unrhyw golled nad yw'n ganlyniad uniongyrchol o'r digwyddiad a yswiriwyd ei hun

**7) DATA MEDDALWEDD GYFRIFIADUROL**

**NID YW'R POLISI HWN YN YSWIRIO RHAG Y CANLYNOL:**

Colled neu lygredd meddalwedd neu ddata cyfrifiadurol a achosir gan firysau cyfrifiadurol, neu o ganlyniad i beidio â chadw copïau wrth gefn digonol.

**8) EITHRIADAU ERAILL**

**NID YW'R POLISI HWN YN YSWIRIO RHAG Y CANLYNOL:**

(a) Traul neu golli gwerth dros amser.

(b) Crefftwaith, dyluniad neu ddeunyddiau diffygiol.

(c) Gostyngiad mewn gwerth ar ôl i eitem gael ei hatgyweirio neu ei disodli.

(d) Unrhyw achos sy'n cael effaith yn raddol.

(e) Unrhyw weithred fwriadol gan EICH AELWYD.

(f) Methiant neu analluedd unrhyw offer neu raglen gyfrifiadurol i adnabod, dehongli'n gywir, neu brosesu unrhyw ddyddiad fel y dyddiad cywir gwirioneddol, neu i barhau i weithio'n gywir y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw. Ni fydd hyn yn eithrio unrhyw golled neu ddifrod canlynol sydd wedi'i yswirio gan y polisi hwn fel arall.

(g) Eiddo a berchenogir at ddibenion busnes naill ai'n llwyr neu'n rhannol, neu sy'n gysylltiedig ag unrhyw gyflogaeth.

**9) LLYGREDD NEU HALOGIAD**

**NID YW'R POLISI HWN YN YSWIRIO RHAG Y CANLYNOL:**

Colled, difrod neu atebolrwydd sy'n deillio o lygredd neu halogiad oni bai ei fod wedi'i achosi gan y canlynol:

(a) damwain sydyn ac annisgwyl y gellir ei nodi;

neu

(b) olew yn gollwng o osodiad olew domestig yn y TŶ.

# GWNEUD HAWLIAD

**Pwyntiau cyswllt dros y ffôn – os bydd angen i chi wneud hawliad o dan y polisi hwn, cysylltwch â'r unionwr colled (gweler y clawr cefn am fanylion).**

Mae'r amodau canlynol yn berthnasol i'ch polisi:

(a) Rhaid i CHI ddweud wrth yr heddlu ar unwaith am unrhyw eiddo sydd wedi'i golli, ei ddwyn, neu ei ddifrodi gan derfysg neu derfysg cyhoeddus, neu sydd wedi'i ddifrodi'n faleisus, a sicrhau eich bod CHI'n cael rhif cyfeirnod trosedd.

(b) Cysylltwch â'r unionwr colled drwy ffonio'r rhif a nodir ar glawr cefn y llyfryn polisi hwn, a hynny'n ddi-oed.

Mae'n bosibl y caiff hawliadau nas cyflwynwyd o fewn 60 diwrnod i ddyddiad y digwyddiad eu gwrthod. Gweler Amod Cyffredinol 8 ar dudalen 25.

(c) Darperwch, ar eich traul eich hun, bob adroddiad, tystysgrif, cynllun, manyleb, gwybodaeth a chymorth sy'n rhesymol ofynnol.

(d) Anfonwch gopi o bob llythyr neu ddogfen sy'n ymwneud â hawliad at yr unionwr colled ar unwaith.
Rhaid i CHI, neu unrhyw unigolyn arall sydd wedi'i yswirio o dan y polisi hwn, neu unrhyw un sy'n gweithredu ar eich rhan CHI neu ef, beidio mynd i drafodaethau ynglŷn ag unrhyw hawliad na chyfaddef neu wadu atebolrwydd heb ein caniatâd ysgrifenedig.

(e) Sicrhewch na cheir gwared ar unrhyw eitem sydd wedi'i difrodi cyn i'r unionwr colled ei gweld.

(f) Gallwn NI amddiffyn neu setlo unrhyw gamau cyfreithiol yn eich enw CHI, neu yn enw unrhyw unigolyn arall sydd wedi'i yswirio o dan y polisi hwn. Gallwn NI adfer unrhyw daliad rydym NI'n ei wneud o dan y polisi i unrhyw un arall, ar ein traul NI'n hunain ac er ein budd NI'n hunain, a gallwn NI wneud hynny yn eich enw CHI neu yn enw unrhyw unigolyn arall sydd wedi'i yswirio o dan y polisi hwn. Gallwn NI ofyn i CHI ac unrhyw unigolyn arall sydd wedi'i yswirio o dan y polisi hwn ddarparu'r holl wybodaeth a chymorth y mae eu hangen arnom.

# AMODAU CYFFREDINOL

Mae'r amodau canlynol yn berthnasol i'ch polisi CHI: -

**1) ADFER Y SWM A YSWIRIWYD**

Yn dilyn hawliad, caiff y SWM A YSWIRIWYD ei adfer yn ddiofyn i'r hyn a nodir ar yr ATODLEN gyfredol.

**2) ACHOSION LLE NA CHEIR ATODLEN**

Os nad ydych CHI'n cael ATODLEN wrth ymuno â'r cynllun neu ar ôl i CHI roi gwybod i'r GWEINYDDWR am newid i fanylion EICH polisi, dylech CHI gysylltu â'r GWEINYDDWR ar fyrder.

**3) CWMPAS YSWIRIANT PARHAUS**

Yn wahanol i bolisïau yswiriant eraill, nid oes gan EICH polisi CHI ddyddiad adnewyddu blynyddol o dan y cynllun.

**Newidiadau y gallwn ni eu gwneud i'r premiwm, cwmpas y polisi a/neu i'r telerau ac amodau**

Gallwn NI, unrhyw bryd ac ar ôl cymryd safbwynt teg a rhesymol, wneud newidiadau i'ch premiwm, cwmpas EICH polisi a/neu EICH telerau ac amodau er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y canlynol:

- ein disgwyliad o ran y gost o ddarparu yswiriant yn y dyfodol
- ein disgwyliad o ran y costau o weinyddu EICH polisi CHI yn y dyfodol
- y gyfraith, rheoliadau, neu reolau treth sy'n effeithio arnom NI neu ar EICH polisi CHI.

Cewch CHI wybod am newidiadau yn ysgrifenedig o leiaf 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym. Gall premiymau a/neu gwmpas y polisi gynyddu a gostwng, ond ni fyddwn yn adennill colledion o'r gorffennol.

Ni fydd EICH polisi'n dod i ben o dan unrhyw amgylchiadau, ond gellir ei ganslo yn unol ag Amodau Cyffredinol 9, 10 ac 11.

**4) EICH DYLETSWYDD GOFAL**

Rhaid i CHI sicrhau bod EICH eiddo mewn cyflwr da a rhaid i CHI gymryd pob cam rhesymol i atal anaf, colled neu ddifrod.

**5) ADFER EIDDO**

Gallwn NI fynd i unrhyw adeilad lle bu achos o golled neu ddifrod ac ymdrin ag unrhyw waith adfer eiddo mewn modd rhesymol. Fodd bynnag, ni allwch CHI adael eiddo er mwyn i NI ymdrin ag ef.

**6) YSWIRIANT ARALL**

Os oes unrhyw yswiriant arall yn cwmpasu'r un hawliad, neu y byddai wedi cwmpasu'r hawliad ond am fodolaeth y polisi hwn, ni fyddwn NI'n gwneud unrhyw daliad o dan **Adran 9 – Yswiriant ar gyfer Atebolrwydd Personol** nes y bydd yr yswiriant hwnnw wedi'i

ddisbyddu.

Yn achos pob hawliad arall, ni fyddwn Ni'n talu mwy na'n cyfran NI hyd yn oed os yw'r yswiriwr arall yn gwrthod yr hawliad.

**Nodyn pwysig** – ni fydd yr amod hwn yn cael yr effaith o'ch gadael CHI heb yswiriant ar gyfer unrhyw hawliad, ac mae'n weithredol mewn achosion lle mae unrhyw yswiriant arall yn cwmpasu'r un hawliad (neu y byddai wedi gwneud hynny yn absenoldeb y polisi hwn), ac yn pennu sut mae'r polisïau yswiriant hynny'n berthnasol.

**7) NODYN PWYSIG – GWYBODAETH Y MAE EI HANGEN ARNOM**

Rhaid i CHI gymryd gofal rhesymol i roi atebion llawn a manwl gywir i'r cwestiynau rydym NI'n eu gofyn. Os yw unrhyw wybodaeth a roddwyd gennych CHI yn newid ar ôl i CHI brynu EICH polisi, ac yn ystod cyfnod EICH polisi, gofynnwn i CHI roi'r manylion i NI.

Mae'r canlynol yn gamau y gallwn eu cymryd os nad yw'r wybodaeth a ddarperir gennych CHI yn gyflawn ac yn fanwl gywir:

- gallwn NI ganslo eich polisi CHI a gwrthod talu yn achos unrhyw hawliad, neu
- mae'n bosibl na fyddwn NI'n talu swm yr hawliad yn llawn, neu
- gallwn NI addasu'r premiwm, neu
- mae'n bosibl y ceir effaith ar gwmpas yr yswiriant.

**8) DWEUD WRTHYM NI AM HAWLIAD**

Mae'n bosibl y gwrthodir unrhyw hawliad nad ydych CHI'n hysbysu'r unionwr colled amdano o fewn 60 diwrnod o'r dyddiad yr oeddech CHI'n ymwybodol o ddigwyddiad neu achos a allai arwain at hawliad o dan y polisi hwn.

**9) HAWLIADAU ANONEST**

Os yw EICH hawliad yn anonest neu wedi'i orliwio mewn unrhyw ffordd, ni fyddwn yn talu unrhyw fudd-daliadau o dan y polisi hwn nac yn dychwelyd unrhyw bremiwm i CHI, a gallwn ganslo EICH polisi ar unwaith ac ôl-ddyddio'r canslad i ddyddiad yr hawliad twyllodrus. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn CHI.

**10) EICH HAWLIAU I GANSLO**

Mae gennych CHI hawl statudol i ganslo EICH polisi o fewn 14 diwrnod o ddyddiad prynu'r contract, neu o'r diwrnod rydych CHI'n cael dogfennaeth EICH polisi, pa un bynnag sy'n ddiweddarach.

Os ydych CHI am ganslo a bod cyfnod yr yswiriant heb ddechrau eto, bydd hawl gennych CHI i gael ad-daliad llawn o'r premiwm a dalwyd.

Fel arall, os ydych CHI am ganslo a bod cyfnod yr yswiriant eisoes wedi dechrau, bydd hawl gennych CHI i gael ad-daliad o'r premiwm a dalwyd, ar ôl didynnu swm cymesur ar gyfer y cyfnod o amser y gwnaethom ddarparu yswiriant ar ei gyfer.

Gallwch CHI ganslo EICH polisi drwy'r GWEINYDDWR yn unig.

Er mwyn ei ganslo, cysylltwch â'r GWEINYDDWR ar y cyfeiriad a nodir ar glawr cefn y llyfryn polisi hwn.

Os na wnewch CHI arfer EICH hawl i ganslo EICH polisi, bydd yn parhau i fod mewn grym a bydd yn ofynnol i CHI dalu'r premiwm.

I wybod mwy am EICH hawliau i ganslo y tu allan i'r cyfnod ymbwyllo statudol, cyfeiriwch at Amod Cyffredinol 11.

## 11) CANSLO'R POLISI HWN

**Eich hawl i ganslo**
Ar ôl i'ch cyfnod ymbwyllo statudol CHI o 14 diwrnod ddod i ben, byddwch CHI'n parhau i fod â'r hawl i ganslo EICH polisi a/neu unrhyw opsiynau yswiriant ychwanegol a ddarperir gan Aviva unrhyw bryd yn ystod cyfnod y polisi. Os ydych CHI'n gwneud hynny, bydd yr hawl gennych CHI i gael ad-daliad o'r premiwm ar gyfer yr yswiriant sydd wedi'i ganslo, ar ôl i swm cymesur gael ei ddidynnu ar gyfer yr amser rydym wedi darparu'r yswiriant dan sylw.

I ganslo, cysylltwch â'r GWEINYDDWR ar y cyfeiriad a nodir ar glawr cefn y llyfryn polisi hwn.

**Ein hawl NI i ganslo**
Gallwn NI (neu unrhyw asiant rydym NI'n ei benodi ac sy'n gweithredu gyda'n hawdurdod penodol NI) ganslo'r polisi hwn a/neu unrhyw opsiynau yswiriant ychwanegol a ddarperir gan Aviva lle ceir rheswm dilys dros wneud hynny, drwy anfon hysbysiad ysgrifenedig ag o leiaf saith niwrnod o rybudd i'ch cyfeiriad post a/neu gyfeiriad e-bost hysbys diwethaf CHI, gan amlinellu ein rheswm dros ganslo.

Mae rhesymau dilys yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Peidio â thalu'r premiwm. Os na thelir premiymau pan fo'n ofynnol gwneud hynny, byddwn yn ysgrifennu atoch CHI i ofyn i CHI dalu erbyn dyddiad penodol. Os ydym NI'n derbyn y taliad erbyn y dyddiad a amlinellwyd yn y llythyr, ni fyddwn NI'n cymryd camau pellach. Os nad ydym NI'n derbyn taliad erbyn y dyddiad hwn, byddwn NI'n canslo'r polisi hwn a/neu unrhyw opsiynau yswiriant ychwanegol a ddarperir gan Aviva o'r dyddiad a nodwyd ar y llythyr.
- Lle rydym yn tybio'n rhesymol bod achos o dwyll yn digwydd.
- Lle rydych CHI'n methu â chydweithredu â ni neu'n methu â darparu'r wybodaeth neu ddogfennaeth i ni sy'n rhesymol ofynnol gennym a bod hyn yn effeithio ar ein gallu i brosesu hawliad neu amddiffyn ein buddiannau. Gweler yr amodau yn yr adran ‘Gwneud hawliad’ yn y llyfryn polisi hwn.
- Lle nad ydych CHI wedi cymryd gofal rhesymol i roi atebion cyflawn a chywir i'r cwestiynau rydym NI'n eu gofyn. Gweler adran ‘Y Contract Yswiriant’ a'r adran ‘Gwybodaeth a newidiadau y mae angen i ni wybod amdanynt’ yn y llyfryn polisi hwn a'r hysbysiadau ‘Gwybodaeth bwysig’ ar wahân a ddarperir hefyd.
- Lle rydych CHI wedi gwneud tri hawliad o'r un fath yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Os ydym NI'n canslo'r polisi a/neu unrhyw opsiynau yswiriant ychwanegol a ddarperir gan Aviva o dan yr adran hon, bydd hawl gennych CHI i gael ad-daliad o'r premiwm a dalwyd ar gyfer yr yswiriant a ganslwyd, ar ôl i swm cymesur gael ei ddidynnu ar gyfer y cyfnod amser yr ydym wedi darparu yswiriant ar ei gyfer, heblaw achosion lle mai twyll yw'r rheswm dros ganslo a/neu fod yr hawl gyfreithiol gennym i gadw'r premiwm o dan Ddeddf Yswiriant Defnyddwyr (Datgelu a Sylwadau) 2012.

**Nodyn pwysig:** Mae Deddf Yswiriant Defnyddwyr (Datgelu a Sylwadau) 2012 yn amlinellu sefyllfaoedd lle galluogir yr yswiriwr i ganslo'r polisi o ganlyniad i fethiant deiliad polisi i ddarparu gwybodaeth gyflawn a chywir y mae'r yswiriwr wedi gofyn amdani, a hynny weithiau yn ôl i ddyddiad dechrau'r polisi, a chadw'r premiymau a dalwyd.

Lle mae ein hymchwiliadau'n darparu tystiolaeth o dwyll neu achos difrifol o beidio â datgelu gwybodaeth, gallwn NI ganslo'r polisi ar unwaith ac ôl-ddyddio'r canslad i'r dyddiad y digwyddodd y twyll neu'r dyddiad y gwnaethoch CHI ddarparu gwybodaeth anghyflawn neu anghywir i NI, sy'n golygu y gallai EICH polisi gael ei ganslo o'r dyddiad y gwnaethoch CHI ei gymryd yn wreiddiol.

**Nodyn pwysig:** Pan ydym NI'n cyfeirio at 'hawliadau o'r un fath', enghraifft o hyn fyddai lle bo'r tri hawliad i gyd wedi'u hachosi gan ddifrod damweiniol.

**12) TALU PREMIYMAU**

Dylech CHI sicrhau eich bod yn talu EICH premiwm ar amser. Gellir talu drwy archeb sefydlog misol mewn unrhyw Swyddfa'r Post® gan ddefnyddio cerdyn sweipio, neu drwy gerdyn debyd drwy ffonio'r Swyddog Yswiriant Cynnwys ar rif ffôn Caerdydd 029 2053 7382.

Mae'n bosibl y bydd talu premiymau yn hwyr, neu fethu â'u talu, yn rhagfarnu'r broses o setlo hawliadau.

**13) PREMIYMAU A DELIR YMLAEN LLAW**

Pan ydych CHI'n talu premiymau ymlaen llaw, dylid ystyried unrhyw newid mewn premiymau.

**14) EICH ATEBOLRWYDD O RAN PREMIYMAU**

O gael eich derbyn ar y cynllun, byddwch CHI'n parhau i fod yn atebol am bremiymau nes eich bod CHI'n cael cydnabyddiaeth y GWEINYDDWR sy'n pennu'r dyddiad olaf y bydd yr yswiriant yn berthnasol oddi wrtho. Mae'r GWEINYDDWR yn cadw'r hawl i adfer unrhyw ôl-daliadau sy'n ddyledus gennych CHI ar gyfer unrhyw bremiymau nas talwyd.

# GWEITHDREFN CWYNION

**Ein haddewid o ran y gwasanaeth**
Ein nod yw darparu gwasanaeth rhagorol i bob un o'n cwsmeriaid, ond rydym yn cydnabod bod pethau'n mynd o chwith weithiau. Rydym yn cymryd pob cwyn a gawn o ddifrif, ac yn anelu at ddatrys pob un o broblemau ein cwsmeriaid yn brydlon. Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r math o wasanaeth yr ydych CHI'n ei ddisgwyl, rydym yn croesawu EICH adborth. Byddwn yn cofnodi EICH sylwadau a'u dadansoddi i sicrhau ein bod yn gwella'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu yn barhaus.

**Yr hyn fydd yn digwydd os ydych CHI'n cwyno**
- Byddwn NI'n cydnabod EICH cwyn yn brydlon.
- Rydym yn anelu at ddatrys pob cwyn cyn gynted â phosibl.

Gellir datrys y rhan fwyaf o bryderon ein cwsmeriaid yn gyflym, ond weithiau bydd angen i NI ymholi'n fanylach. Os yw hyn yn debygol, byddwn NI'n cysylltu â CHI gyda diweddariad o fewn deng niwrnod gwaith o'r dyddiad y cafwyd y gŵyn, ac yn rhoi dyddiad ymateb disgwyliedig i CHI.

**Yr hyn i'w wneud os ydych CHI'n anhapus**
Os ydych yn anhapus ag unrhyw agwedd ar y dull o ymdrin â'ch yswiriant CHI, byddwn yn eich annog CHI, yn y lle cyntaf, i geisio datrysiad drwy gysylltu ag Uned Cynnwys Tenantiaid Aviva yn y cyfeiriad a nodir ar glawr cefn y llyfryn polisi hwn.

Os ydych CHI'n anhapus â chanlyniad EICH cwyn, gallwch CHI gyfeirio'r mater at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol yn:

The Financial Ombudsman Service
Exchange Tower
Llundain E14 9SR

Ffôn:
0800 023 4567 (yn rhad ac am ddim o linellau tir ffôn) neu
0300 123 9123

Neu gallwch fewngofnodi i'w wefan ar www.financial-ombudsman.org.uk.

Er ein bod NI'n ymrwymedig i benderfyniad Gwasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol, nid ydych CHI. Nid yw dilyn y weithdrefn gwyno yn effeithio ar EICH hawl i gymryd camau cyfreithiol.

**Dewis o ran y gyfraith**
Bydd Cyfraith Cymru a Lloegr yn berthnasol i'r contract hwn heblaw yn achos y canlynol:
1) Eich bod CHI a'r yswiriwr yn cytuno fel arall; neu
2) Ar ddyddiad y contract, eich bod CHI'n byw yn (neu, yn achos busnes, mae'r swyddfa gofrestredig neu brif leoliad y busnes wedi'i leoli yn) yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw, ac, os felly (yn absenoldeb unrhyw gytundeb i'r gwrthwyneb) y gyfraith yn y wlad honno fydd yn berthnasol.

# CYNLLUN DIGOLLEDU GWASANAETHAU ARIANNOL

Rydym NI'n aelodau o'r Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Mae'n bosibl y bydd yr hawl gennych CHI i gael digollediad o dan y cynllun hwn os na allwn NI gyflawni ein rhwymedigaethau, gan ddibynnu ar y math o yswiriant ac amgylchiadau EICH hawliad.

Mae gwybodaeth bellach am y cynllun ar gael ar wefan y Cynllun Digolledu Gwasanaethau Ariannol, sef www.fscs.org.uk, neu ysgrifennwch at Financial Services Compensation Scheme, 10th Floor, Beaufort House, 15 St Botolph Street, London, EC3A 7QU.

# NODIADAU

# Rhestr o gyfeiriadau a rhifau ffôn defnyddiol

| | | |
|---|---|---|
| 1. Y Gweinyddwr | Cyngor Caerdydd<br>Tîm Rheoli Rhent y Swyddog<br>Yswiriant Cynnwys<br>Ystafell 422<br>Neuadd y Sir<br>Caerdydd<br>CF10 4UW<br>Ffôn: 029 2053 7382 | Ar gyfer ymholiadau yswiriant cyffredinol, dyfynnwch rif cyfeirnod eich polisi os gwelwch yn dda |
| 2. Yr Unionwr Colled | Sedgwick Glasgow<br>Sentinel<br>103 Waterloo Street<br>Glasgow<br>G2 7BW<br>Ffôn: 0345 604 8901 | (Ffoniwch yr unionwyr os oes angen i chi wneud hawliad) |
| 3. Yr Yswiriwr | Aviva Insurance Limited<br>Cruan Business Centre<br>123 Westerhill Road<br>Bishopbriggs<br>Glasgow<br>G64 2QR<br>Ffôn: 0345 030 8733 | |
| 4. Brocer y Cynllun | Thistle Insurance Services Ltd<br>Southgate House<br>Southgate Street<br>Gloucester<br>GL1 1UB<br>Ffôn: 0345 450 7288<br>E-bost: tenantscontents@thistleinsurance.co.uk | |

Mae Thistle Tenant Risks yn arddull masnachu o Thistle Insurance Services Limited. Mae Thistle Insurance Services Limited wedi'i awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, Rhif Cyfeirnod Cwmni (FRN) 310419. Cofrestredig yn Lloegr o dan rif 00338645. Swyddfa gofrestredig: Rossington's Business Park, West Carr Road, Retford, Nottinghamshire, DN22 7SW. Mae Thistle Insurance Services Ltd yn rhan o PIB Group. Gellir gweld ein Polisi Preifatrwydd a'n Polisi Diogelu Data ar-lein yn https://www.thistleinsurance.co.uk/Privacy-Policy

Aviva Insurance Limited, cofrestredig yn yr Alban, rhif 2116, swyddfa gofrestredig: Pitheavlis, Perth, PH2 0NH Awdurdodwyd gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus ac wedi'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol a'r Awdurdod Rheoleiddio Darbodus.

223261_PPADDON_07/21_v35